**Cofnodion: Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai**
**Manylion: Dydd Mercher 22 Tachwedd am 6pm, Ystafell Gynadledda C&D.**
**Dan gadeiryddiaeth Simon Thomas AC**

1. **Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. **Etholiad**
3. **Diben y Grŵp**
4. **Aelodau allanol**
5. **Cyfarfodydd a digwyddiadau sydd i ddod.**
6. **Unrhyw fater arall**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd Simon Thomas AC bawb i'r cyfarfod a gofynnodd am unrhyw gyflwyniadau. Nodwyd mai cyfarfod byr fyddai hwn a bod ymdrechion eisoes wedi'u gwneud i sicrhau aelodaeth ar gyfer y grŵp. Trefnir cyfarfod mwy ffurfiol ar gyfer y flwyddyn newydd.

**Yn bresennol**

Simon Thomas AC, David Rees AC, Gareth Bennett AC, Mark Isherwood AC, Craig Lawton ar ran Suzy Davies (pleidlais drwy ddirprwy), a Faye Grima o CAMRA.

**2. Etholiad**

Etholwyd y swyddi canlynol:

Simon Thomas AC - Cadeirydd
Ysgrifennydd: CAMRA, 'the Campaign for Real Ale' (Cyswllt faye.grima@camra.org.uk)

**3. Diben y grŵp**

Cytunwyd mai pwrpas y grŵp yw gwerthfawrogi cwrw o ansawdd da a gynhyrchir yng Nghymru; cydnabod pwysigrwydd tafarndai i fywyd cymunedol; arparu fforwm i drafod polisïau sy'n effeithio ar y sector cwrw a thafarndai; trafod materion parhaus sy'n mynd drwy'r Cynulliad, ac sy'n ymwneud â chwrw a thafarndai.

Cytunwyd, fel man cychwyn, y byddai'r materion canlynol yn cael eu hystyried:

- Isafbris Uned
- Y Ddeddf Lleoliaeth
- Perchnogaeth tafarndai cymunedol
- Ardrethi busnes

**4. Aelodau Allanol**

- Cytunwyd y byddai sefydliadau allanol gan gynnwys bragwyr ac adrannau'r Llywodraeth yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol pe byddai pwnc perthnasol i'w drafod.

**5. Digwyddiadau a chyfarfodydd i ddod**

- Mae digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth 30 Ionawr yn Oriel y Senedd o 6pm i ddathlu lansi’r Grŵp

**Unrhyw fater arall**

**Amh**